# Cyflwyniad i'r Cofnod Darllen

Annwyl Rieni a Gwarheidwaid.

Un o'r pethau mwyaf cyffrous fel athro ysgol gynradd ydy tystio cynnydd darllen disgybl: o ddysgu plethu seiniau yn y dosbarth Meithrin i drafod a gwerthuso arddull ym Mlwyddyn 6.

Fel ysgol, rydym yn falch iawn o gael cydweithio gyda chi er mwyn sicrhau datblygiad eich plentyn i fod yn ddinesydd llythrennog sy'n mwynhau darllen ac un sy'n gallu defnyddio'r sgil er mwyn ehangu ei dd/dealltriaeth o'r byd sydd o'i g/chwmpas. Gwyddwn fod darllen yn sgil holl bwysig ym mhob agwedd o fywyd ac felly mae'n hanfodol ein bod ni'n cynnig pob cefnogaeth ac arweiniad i'n disgtblion.

Unwaith yr wythnos, fe fydd eich plentyn yn ymgymryd ag un sesiwn darllen ffurfiol gyda'r athro dosbarth a fydd yn nodi sylw yn y llyfryn yma. Gofynnwn i chi nodi un sylw unwaith yr wythnos hefyd. Nid oes angen i chi boeni am safon na chywirdeb eich sylw – yr hyn sy'n fuddiol i'r athro ydy ennyn gwybodaeth am gynnydd darllen eich plentyn.

Bwriad y Cofnod Darllen yn syml ydy sicrhau fod deialog rhwng yr ysgol a'r cartref, a fydd yn trafod llwyddiannau eich plentyn, yn ogystal â nodi targedau a meysydd i'w datblygu ymhellach.

Isod, fe welwch chi enghreiffitau o sylwadau posib.

| Dyddiad (Date) | Cam (Stage) | Enw'r Llyfr (Name of Book) | Sgil (Skill) | Sylwadau (Comments) |
|---|---|---|---|---|
| 09/09/22 | 13 | *CMM* | Rhuglder | **Sylwadau YSGOL//SCHOOL *comment***<br>• Rhys yn fwy rhugl nag erioed.<br>• Ymwybodol bo angen oedi pan fo'n gweld atalnod llawn.<br>• >Targed Rhys ydy parhau i ymarfer yn gyson |
| 09/09/22 | 13 | *CMM* | Rhuglder | **Sylwadau CARTREF/ *HOME comment***<br>• Rhys wedi ddarllen ychydig bob nos<br>• Wedi atgoffa Rhys i ddefnyddio'r atalnodi sy'n llawn<br>• > Dal i weithio ar oedi ar ôl atalnod llawn |